Haf 2023

# Cylchlythyr Cymunedol

Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri



## Diweddariad prosiect

**Helo a chroeso i'n cylchlythyr cymunedol diweddaraf. Hyd yn hyn, mae 2023 wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i'r prosiect Darpariaeth Effaith Weledol ym Mharc Cenedlaethol Eryri.**

Mae'n wych bod ar y safle yn Garth yn awr, ar ôl i aelodau tîm y prosiect symud o'u swyddfeydd blaenorol yn is-orsaf Trawsfynydd. Bydd y compownd newydd yn gartref i ganolfan wybodaeth y prosiect lle rydym yn gobeithio gwahodd y gymuned yn y dyfodol.

Ers ein cylchlythyr diwethaf, byddwch wedi sylwi ein bod ni hefyd yn llawer mwy gweladwy yn ardal Llandecwyn gan fod ein timau wedi bod yn gweithio ar greu mynedfa ar gyfer ein safle newydd yno, a lleoliad un o'n pentai twnnel. Diolch i chi am eich amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod y cam hollbwysig hwn o'r prosiect.

Rydym ni nawr yn canolbwyntio ar baratoi safle Garth ar gyfer dyfodiad y peiriant tyllu twnnel yn gynnar y flwyddyn nesaf, a fydd yn cael ei ddefnyddio i gloddio'r twnnel o dan Aber Afon Dwyryd. Yn ystod tymor yr hydref, byddwn yn ymweld ag ysgolion o amgylch yr ardal leol, gyda chyfleoedd cyffrous i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithdai yn seiliedig ar wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Byddant hefyd yn cael y dasg bwysig o awgrymu enw ar gyfer y peiriant tyllu twnnel – mwy am hynny y tu mewn.


Rydym yn falch o weld cynifer ohonoch yn cymryd diddordeb yn ein Rhaglen Grantiau Cymunedol, gyda cheisiadau llwyddiannus yn dod i law o bob rhan o ardal y prosiect. Rydym nawr yn paratoi ar gyfer y cyfnod ymgeisio nesaf a fydd yn agor ym mis Hydref.



**Steve Ellison**
Uwch Reolwr Prosiect,
National Grid



Fel ag y mae heddiw



Ar ôl gwaredu

nationalgrid

## Tara Traws, helo Garth

**Ar ôl 14 mis o weithio o'n swyddfeydd yn is-orsaf Trawsfynydd, symudodd tîm Darpariaeth Effaith Weledol Eryri i'w gompownd newydd yn Garth, ger Minffordd, yn ystod mis Gorffennaf.**

Bydd y compownd newydd, sydd wedi'i leoli ar waelod Lôn y Chwarel, lle mae'n cwrdd y lôn gefn, yn cynnwys 64 uned swyddfa i gartrefu'r 150 aelod o'r tîm a fydd yn gweithio ar y prosiect yn y pen draw, ar anterth ei weithgarwch rhwng 2024 a 2026. Bydd ystafelloedd cyfarfod, cegin a ffreutur a chyfleusterau lles eraill, gan gynnwys canolfan wybodaeth am y prosiect lle rydym yn gobeithio cynnal grwpiau cymunedol yn y dyfodol.

Bydd y swyddfeydd yn Nhrawsfynydd yn cael eu symud, a bydd y safle'n dychwelyd i'w ffurf wreiddiol ar safle'r is-orsaf.



## Trydydd cyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol

**Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol ym mis Mehefin, gan barhau â'n haddewid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i grwpiau lleol am ddatblygiad y prosiect, a rhoi cyfle i gynrychiolwyr lleol gynnig adborth i'r tîm.**

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymuned Talsarnau, a chafodd ei fynynychu gan gynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, Cyngor Cymuned Talsarnau, Cyngor Cymuned Maentwrog, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ysgol Talsarnau ac Ysgol Cefn Coch, Cymdeithas Eryri, Ramblers Meirionnydd ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Roedd y sesiwn â ffocws yn ymdrin â chynnydd y prosiect dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys y gwaith i sefydlu prif gompownd adeiladu'r prosiect ym Minffordd, yn ogystal â'r compownd llai yn Llandecwyn a'r rhaglen o waith ymchwiliadau tir sydd wedi dechrau ar Aber Afon Dwyryd ac o'i gwmpas.

## Rheoli traffig yn Llandecwyn

**Yn ystod mis Mai a mis Mehefin, bu ein timau'n gweithio ar greu'r fynedfa ar gyfer ein safle a lleoliad un o'n pentai twnnel yn Llandecwyn. Roedd hyn yn golygu bod angen goleuadau traffig dros dro yn agos i'r man lle maent wedi'u lleoli ar yr A496 ar hyn o bryd, gyferbyn â'r gwaith trin dŵr.**

Gelwir y pwyntiau mynediad hyn yn 'bellmouths', sy'n cyfeirio at siâp y fynedfa – maent yn llydan iawn i ganiatáu mynediad diogel i gerbydau fynd i mewn ac allan o'r safle.

Bydd y mesurau rheoli traffig yn cael eu dileu ddechrau'r hydref a hoffem ddiolch i chi am eich amynedd a'ch cydweithrediad pan oeddent ar waith.



# Yn y Gymuned…

## Ras 10 cilomedr Llandecwyn yn cael hwb trydanol

Ym mis Mehefin eleni, cefnogodd prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri y National Grid, a'i brif gontractwr, Hochtief UK, ras 10 cilomedr boblogaidd Llandecwyn, sy'n dechrau ac yn gorffen wrth ymyl compownd safle dwyreiniol y prosiect.

Roedd Uwch Reolwr Prosiect y National Grid, Steve Ellison, yn rhedeg y ras am yr ail flwyddyn yn olynol ac fe wnaeth Hochtief UK ddarparu stiwardiaid gwirfoddol ar gyfer y cwrs, sydd ag enw am fod yn arbennig o heriol mewn mannau.

Yn ogystal â noddi'r tlysau, helpodd y tîm i baratoi'r safle er mwyn i'r cyfranogwyr a'r trefnwyr allu defnyddio'r cyfleusterau ar y safle. Roedd contractwyr peirianneg sifil lleol, Jennings, wrth law hefyd i sicrhau bod yr ardal yn ddiogel i'r cyhoedd ei defnyddio. Da iawn i bawb a gymerodd ran.



Steve Ellison, National Grid; Ben Davies, Hochtief UK; Cyng Lisa Birks, Cyngor Cymuned Talsarnau; Carwyn Richards, un o drefnwyr y ras

## Torchi llewys a thynnu llewys

Yn gynharach eleni roedd timau o National Grid a Hochtief UK sy'n gweithio ar brosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri wedi ymuno â Chymdeithas Eryri a Coed Cadw mewn diwrnod gwirfoddoli ym Maentwrog.

Roedd y timau'n fwy cyfarwydd â pheirianneg na choedyddiaeth ond fe aethant ati i dynnu llewys coed yng Nghoed Llennyrch a Felenrhyd, coetir derw prin yr Iwerydd ac un o'r coetiroedd mwyaf yng Nghymru.

Ar ôl sesiwn prysur a gwerth chweil, aeth y rheini a fu'n tynnu'r llewys coed ar ymweliad safle, trwy'r coed ac i fyny at y ffermdy sydd wrthi'n cael ei adnewyddu i fod yn ganolfan i wirfoddolwyr.



Cynrychiolwyr o National Grid, Hochtief UK, Cymdeithas Eryri a Choed Cadw ym Maentwrog

## Dathlu diwylliant Cymru yn yr Eisteddfod

Mae'r National Grid yn falch o fod wedi noddi Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni ac fe gafodd aelodau o dîm prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri ddiwrnod gwych yn mwynhau holl arlwy'r ŵyl.




Fel y gŵyr llawer o bobl leol, mae'r Eisteddfod yn ddigwyddiad blynyddol o fri sy'n dathlu diwylliant, iaith a chelfyddydau Cymru. Eleni, cynhaliwyd yr ŵyl ym Moduan ger Pwllheli, gyda dalgylch yr Eisteddfod yn ymestyn o Aberdaron yn y gorllewin, i Abergwyngregyn yn y gogledd, a Phenrhyndeudraeth yn y pen dwyreiniol.

Daeth cydweithwyr o brosiectau ac adrannau eraill y National Grid ledled gogledd Cymru i ymuno â thîm Darpariaeth Effaith Weledol Eryri ar y diwrnod, yn ogystal â Hochtief UK, sef ein prif gontractwr ar gynllun Darpariaeth Effaith Weledol Eryri. Cafodd y grŵp gyfle i fwynhau taith dywysedig, cyfleoedd rhwydweithio amhrisiadwy gyda ffrindiau, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr o'r sector ynni yng Nghymru, sgyrsiau a gweithgareddau yn y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg, yn ogystal â rhywfaint o'r gerddoriaeth wych a'r bwyd blasus a oedd ar gael ar y Maes.



13053 - NG VIP Eryri Summer Newsletter A4 4pp 2023 WELSH V.3.indd 4 15/09/2023 16:45

# Rhaglen Grantiau Cymunedol

**Mae'r Rhaglen Grantiau Cymunedol wedi'i hanelu at fudiadau cymunedol ac elusennau mewn ardaloedd lle mae gwaith y National Grid yn effeithio ar bobl leol drwy ein gweithgareddau ar y safle – gan gefnogi prosiectau a fydd o fudd i gymunedau yn yr ardal leol.**

A allai eich grŵp chi elwa? Os ydych chi'n gwybod am brosiect sy'n bodloni ein meini prawf, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gallu gwneud cais a sut mae gwneud hynny – **www.nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme**

## Clwb Pêl-droed Iau Porthmadog

Pan ddaeth eu cae yn llawn pryfed, gan ei gwneud bron yn amhosibl i aelodau'r clwb hyfforddi, penderfynodd Clwb Pêl-droed Iau Porthmadog wneud cais am gymorth ariannol i brynu goleuadau LED cludadwy a hefyd i atgyweirio'r cae. Yn dilyn hynny, derbyniodd y clwb pêl-droed bron i £10,000 gan y National Grid ar gyfer atgyweirio'r cae ac i brynu goleuadau newydd, a fydd yn hwyluso hyfforddiant ac yn lleihau costau llogi ar gyfer y clwb llawr gwlad, sydd â 130 o aelodau ac sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr.



Steve Ellison, National Grid, gyda chwaraewyr a hyfforddwyr y clwb

## Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth

Mae Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth wedi derbyn dros £10,000 gan y National Grid ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu adeiladau, ar ôl i gwteri metel craciedig a mannau llaith arwain at bryderon y gallai'r adeilad cymunedol poblogaidd ddirywio'n gyflym. Bydd y gwaith ailwampio yn gwella cyflwr y neuadd ac yn sicrhau y gall barhau i wasanaethu'r gymuned leol.




Eloise Frank, National Grid, gyda chynrychiolwyr y Neuadd Goffa

### Beth nesaf?

Fel rhan o'n hymgysylltiad ag ysgolion yn yr ardal, mae gennym gyfle cyffrous i blant ysgol Cyfnod Allweddol 2 wneud gwaith pwysig iawn – enwi ein Peiriant Tyllu Twnnel.

Mae prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri yn gofyn am sgiliau ac offer peirianneg arbenigol iawn, ac rydym am i'n cenhedlaeth nesaf o ddarpar beirianwyr a gwyddonwyr fod yn rhan o'r daith hon gyda ni. Yn yr hydref, byddwn yn cynnal gweithdai STEM yn yr ysgolion cynradd sydd agosaf at ardal ein prosiect. Bydd y gweithdai hyn yn defnyddio gweithgareddau ymarferol ac arbrofion i esbonio ychydig mwy am ein prosiect a'i heriau. Yn benodol, bydd y gweithdai'n edrych ar waith epig ein Peiriant Tyllu Twnnel o dyllu o dan dirwedd Meirionnydd.

Y swydd gyntaf i'n darpar dalent lleol fydd meddwl am enw addas ar gyfer y Peiriant Tyllu Twnnel. Y traddodiad yw enwi peiriannau tyllu twnnel ar ôl menywod enwog; yn yr achos hwn efallai menyw sydd wedi gadael etifeddiaeth barhaol ar STEM, dylunio, hanes neu ddiwylliant Cymru, neu fenyw o fytholeg y mae ei henw'n arwyddocaol iawn i ni yma yng Nghymru. Gofynnir i'r disgyblion gyflwyno eu hawgrymiadau, ynghyd â rheswm pam eu bod yn credu y dylid dewis yr enw hwnnw.

Cadwch lygad am newyddion am yr enw buddugol yn rhifyn nesaf y cylchlythyr!

# Cysylltwch â ni

Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y cam adeiladu a byddwn yn anfon cylchlythyrau rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl leol am ein cynnydd. Fodd bynnag, rydym bob amser yn awyddus i glywed gennych.

Cysylltwch â ni drwy ffonio **0330 134 0051**

drwy ysgrifennu at **Freepost VISUAL IMPACT PROVISION**

neu drwy anfon neges e-bost at **visualimpact@nationalgrid.com**

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar ein gwefan:
**www.nationalgrid.com/eryrivip**

Ailgylchwch os gwelwch yn dda